

## PWYLLGOR SAFONAU

15 Mai 2018

Yn bresennol: Mr J Daniels, Cynghorydd P Morgan a Mrs V Tomlinson.

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 10.50am)

### 1. Ethol Cadeirydd

**PENDERFYNWYD** ethol Mrs J Wainwright yn Gadeirydd am weddill ei thymor fel aelod.

### 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

**PENDERFYNWYD** ethol Mrs V Tomlinson yn Ddirprwy Gadeirydd tan 23 Medi 2019, sef y dyddiad pan fyddai tymor gwasanaeth y Dirprwy Gadeirydd blaenorol yn dod i ben, yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.

Yn absenoldeb Mrs Wainwright cymerwyd y Gadair gan Mrs Tomlinson wedyn am weddill y cyfarfod.

### 3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Mr A Archer, Cynghorydd R Owens a Mrs J Wainwright.

### 4. Datgelu buddiant

Doedd yna ddim datgeliadau o fuddiant.

### 5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017.

### 6. Caniatáu Goddefeb

Adroddwyd bod dau gais am oddefebau wedi dod i law'r Awdurdod. Roedd y Cynghorydd P Harries o Drefdraeth yn gofyn am adnewyddu'r oddefeb a roddwyd iddo gan y Pwyllgor Safonau ar Dachwedd 9 2016 er mwyn ei alluogi i barhau i gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch dyfodol eiddo'r Awdurdod yn Stryd Hir, Trefdraeth, a'r Cynghorydd P Kidney o Jameston yn gofyn am oddefeb i'w alluogi i barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau ar faterion cynllunio sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ynghylch Maes Carafanau Buttyland ym Maenorbÿr. Roedd y ceisiadau a gyflwynwyd gan yr Aelodau wedi'u hatodi i'r adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor, ac roedd y rhain yn gosod allan eu rhesymau dros chwennych goddefeb.



a) Cais gan y Cynghorydd P Kidney

Y cais cyntaf i gael ei ystyried oedd eiddo'r Cynghorydd Kidney, a fu'n annerch y Pwyllgor, gan esbonio bod yr asiant oedd yn gweithredu ar ran cais cynllunio Maes Carafanau Buttyland yn wybyddus iddo ac mewn gwirionedd yn denant mewn eiddo oedd yn berchen iddo. Fodd bynnag, roedd llawer o ddiddordeb lleol yn y cais ac roedd y Cynghorydd Kidney am fod yn sicr y medrai gyflwyno barn y gymuned gerbron y Pwyllgor. Roedd hefyd yn wybyddus iawn â'r safle ac o'r farn y byddai ei wybodaeth o fudd i'r Aelodau.

Gadawodd y Cynghorydd Kidney yr ystafell tra roedd y Pwyllgor yn ystyried ei gais. Roedden nhw o'r farn bod ei swyddogaeth yn cynrychioli'r gymuned yn werthfawr i'r Awdurdod a chydabuwyd na fyddai'n elwa'n bersonol p'un a fyddai'r cais yn cael ei ganiatáu neu ei wrthod. Roedd swyddogaeth ei denant fel asiant yn hytrach nag ymgeisydd hefyd yn ei ymbellhau'n sylweddol.

**PENDERFYNWYD** rhoi goddefeb i'r Cynghorydd Kidney i siarad a phleidleisio ar faterion cynllunio yn ymwneud â Maes Carafanau Buttyland, Maenorbŷr. Y goddefeb i fod mewn grym am ddeuddeg mis, h.y. tan Mai 14 2019 ac yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio'r oddefeb yn y cyfamser, a fyddai'n cael eu hadrodd gerbron y Pwyllgor er mwyn iddyn nhw fedru adolygu'r penderfyniad.

b) Cais gan y Cynghorydd P Harries

Bu'r Pwyllgor wedyn yn ystyried cais y Cynghorydd Harries a oedd yn chwennych goddefeb am fod Cyngor Tref Trefdraeth, ac yntau'n Aelod ohono, yn dymuno gosod eiddo'r Awdurdod yn Stryd Hir ar brydles trwy Drosglwyddiad Ased Cymunedol. Eto roedd y Pwyllgor yn cydnabod na fyddai'r Cynghorydd Harries ei hun yn elwa'n ariannol trwy ganiatáu prydles ac fe fyddai ei wybodaeth leol o fudd i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** rhoi goddefeb i'r Cynghorydd Harries i siarad a phleidleisio ar y cynnig i brydlesi'r hen adeilad Canolfan Ymwelwyr i Gyngor Tref Trefdraeth, ac ar unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol yn ymwneud â'r defnydd o'r adeilad. Yr oddefeb hon i fod mewn grym am ddeuddeg mis, h.y. tan Mai 14 2019.

